

## Cofion a Chyfarchion

- Mae'n dda clywed fod Dilys Jones (Nantglyn) wedi cael dod adref o'r ysbyty. Parhawn i gofio amdani hi ac eraill o'r Ofalaeth sydd heb fod yn dda eu hiechyd y dyddiau hyn. Cyflwynwn hwy oll i ofal Duw gan ofyn iddo gysgodi drostynt a thros eu hanwyliaid yr un modd.
- Cofiw'n hefyd am y rhai sydd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ystod yr wythnos, a chyflwynwn hwy yn dyner i ofal yr Arglwydd. Gweddïwn y bydd Duw yn ei holl ddaioni yn rhoi nerth a chysur iddynt dros y cyfnod anodd hwn.
- Anfonwn ein cofion hefyd at lorwerth a Helen Jones (Peniel) sydd yn dathlu 60 mlynedd o briodas y penwythnos yma. Llongyfarchiadau mawr iddyn nhw!

## Bws Mini i Sasiwn Chwiorydd y Gogledd

Bydd bws mini 'Cart y Plwyf' yn mynd â chriw o'r Fro i'r Sasiwn yng Nghorwen ar ddydd Mercher, Mai 10fed. Os oes gennych ddi-ddordeb i deithio ar y bws, cysylltwch â Llinos Rees (01745) 550261 mor fuan â phosibl, os gwelwch yn dda. Y cyntaf i'r felin....!

## I ddod

- **SASIWN CHWIORYDD Y GOGLEDD** yn Eglwys Unedig Seion/Bryneglwys, Corwen dydd Mercher, Mai 10fed gyda Bethan Davies, Port Talbot yn annerch am 2.00 ac Arfon Jones, Caerdydd yn annerch am 5.30.
- **SASIWN PLANT** (Groes, Henllan, Nantglyn, Peniel a Saron) yn Saron, dydd Sul, Mai 21ain am 2.00. Yr arweinydd fydd Mrs Elsbeth Jones, Gellifor.
- **"LLWYBR MARI A'N LLWYBR NI"** – Mae Adran Is-bwyllgor y Chwiorydd EBC a Byd Mary Jones yn cydweithio i drefnu encil ar gyfer grwpiau o ferched. Bydd y diwrnod yn cynnwys cyfle i edrych ar agweddau gwahanol o fywyd a ffydd Mari, cyfle i wrando ar dystiolaethau gan bobl sy'n trysori Gair Duw heddiw, ac ymweliad â'r Ganolfan. Cynigir yr encil yn ystod y prynhawn ar un o'r dyddiau canlynol: *dydd Llun, Ebrill 24ain; dydd Mercher, Mai 24ain; dydd Mawrth, Mehefin 27ain; neu dydd Mawrth, Gorffennaf 18fed.* Y pris yw £11 yr un yn cynnwys cinio a phaned yn y prynhawn. Mae lle i 30 ar gyfer pob sesiwn a fydd yn dechrau 11.45 tan 4.00. I archebu lle, cysylltwch â Nerys Siddall ar 01678 521877 neu ar ebost: [nerys.siddall@biblesociety.org.uk](mailto:nerys.siddall@biblesociety.org.uk)



## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 23<sup>ain</sup> Ebrill 2017

## Darllenid y Dydd

Ioan 20:24-29

(BCND tud.127 / BCN tud.116)

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

Wel wir, pwy fasa'n meddwl? Yn ychwanegol at yr holl grafu pen ynglŷn â chanlyniadau gadael yr Undeb Ewropeaidd a'r hyn y mae'r Arlywydd Trump yn mynd i'w wneud nesaf, gallwn erbyn hyn ychwanegu ansicrwydd Etholiad Cyffredinol annisgwyl i'r pair. Beth sy'n mynd i ddigwydd a sut wnaiff y pethau hyn ein heffeithio ni am y blynyddoedd sy'n dod? Efallai nad yw'r newyddion hwn na'r straeon cyson am ddylanwad Brexit o fawr o ddi-ddordeb i chi, ond maent yn siŵr o ddylanwadu ar ein bywydau mewn un ffordd neu'r llall. Trwy gydol ein bywydau fe fyddwn yn wynebu cyfuniad rhyfedd o bethau sy'n ein synnu wrth iddynt godi'n gwbl annisgwyl, a digwyddiadau eraill yr ydym yn gwybod amdanynt ac wedi bod yn paratoi amdanynt ers talwm. Hyd yn oed yn ein bywydau ysbrydol ceir amgylchiadau gwahanol y mae angen delio â hwy o'r newydd gydag amynedd a doethineb Duw, a sefyllfaoedd y gwyddom yn rhy dda amdanynt wrth i ni frwydro i roi pechod i farwolaeth neu wrth i ni ymwneud â phobl eraill.

Ond sut mae Cristnogion i fod i ymateb? Bod yn gyfforddus tra'r ydym yn wynebu amgylchiadau cyfarwydd ac anobeithio pan mae pethau'n llamu i'n bywydau'n ddirybudd gan droi popeth ben i waered? Wrth i griw Llanw wrando ar John Treharne yn pregethu yn y boreuau yn ystod yr wythnos ddiwethaf, yr ydym wedi cael braint o gael ein hatgoffa o bwy yn union yw'r Arglwydd sy'n caru ac yn achub ei bobl. Bu John yn canolbwyntio ar y Fendith yr ydym i gyd mor gyfarwydd â'i chlywed sy'n darlunio'r Tad sy'n caru, y Mab sy'n dangos gras a'r Ysbryd yr ydym yn ei gymdeithas. Wrth feddwl ymhellach am hyn, sylwn fod cariad Duw yn ôl Salm 118 yn gariad sydd hyd byth, ac sydd wedi arwain at ddyfodiad y Mab i'r byd i achub pechaduriaid. Yn wir, dywed y Beibl fod Iesu wedi'i neilltuo i fod yn briodfab a'r eglwys wedi cael ei threfnu i fod yn briodferch i'w gilydd cyn seilio'r byd (Effesiaid 1:4; 1 Pedr 1:20). Ac felly, mae cariad tragwyddol Duw y Tad wedi golygu cynllun tragwyddol i adfer y berthynas rhwng Duw a dyn trwy fywyd, marwolaeth ac atgyfodiad Iesu Grist. Ond gyda hynny, wrth i ni ddod i berthynas â'r Duw godidog hwn, cawn yr Ysbryd Glân yn rhodd sy'n rhoi nerth i ni o'r newydd i wynebu pob math o sefyllfaoedd dryslyd ac anodd. Ac felly, beth bynnag yw ein sefyllfa, cyfarwydd neu brawychus o anghyfarwydd, mae'r adnoddau, yr addewidion, y gynhaliaeth a'r nerth sydd ei angen oll i'w cael yn yr Arglwydd ei hun. Diolchwn iddo, a rhown ein ffydd yn y Mab i brofi llawenydd a heddwch perffaith sydd y tu hwnt i bob dychymyg. (Philipiad 4:7)

## Darllenid Wythnos Nesaf

1 Brenhinoedd 3:10-14 (BCND tud.312 / BCN tud.285)

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Rhodri

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 23<sup>ain</sup> ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion, a bydd y Parch. Dewi Tudur yn pregethu.
- Mawrth – 25<sup>ain</sup> ➤ **Cyfarfod Chwiorydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** – Noson Gymdeithasol yn Festri Capel Mawr, Dinbych am 7.30 yng nghwmni y Parch. Hywel Meredydd. Darperir lluniaeth ysgafn am bris rhesymol.
- Mercher – 26<sup>ain</sup> ➤ **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
- **'Heddwch meddwl mewn byd sy'n poeni – beth mae'r Beibl yn ei ddweud?'** yng nghwmni Ben Nuss yn Festri Llansannan am 7.30.
- Iau – 27<sup>ain</sup> ➤ **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.30.
- Gwener – 28<sup>ain</sup> ➤ **CIC + (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion)** yn Preswylfa, Cefn Meiriadog am 7.00.
- Sul nesaf – 30<sup>ain</sup> ➤ **Oedfa'r Fro ar Daith** am 6.00 – y tro hwn yn Groes. Arweinir yr oedfa gan Gwawr Davies, a bydd Rhodri yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 23<sup>ain</sup> ➤ Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghewn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghewn Meiriadog am 10.30.
- Sul nesaf – 30<sup>ain</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghewn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghewn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 23<sup>ain</sup> ➤ Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa yng Nghewn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yng Nghewn Berain.
- Sul nesaf – 30<sup>ain</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghewn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg.

### Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 23<sup>ain</sup> ➤ Bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10. Cynhelir Pwyllgor Cymorth Cristnogol yn Ystafell y Blaenoriaid, Capel Coffa Henry Rees am 7.30.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.
- Mercher – 26<sup>ain</sup> ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **erbyn dydd Sul, Ebrill 23ain**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 30<sup>ain</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa deulu yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
- Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 23<sup>ain</sup> ➤ Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yn Saron am 2.00.
- Sul nesaf – 30<sup>ain</sup> ➤ Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 23<sup>ain</sup> ➤ Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.
- Sul nesaf – 30<sup>ain</sup> ➤ Bydd y Parch. Euros Wyn Jones yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

### Manylion Cyswilt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291  
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎ 01745 582644 📞 07849 591163  
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536  
*Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*

### Eglwysi Bro Aled

**Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.**